

YSBRYDOLIAETH AC ADNODDAU  
AR GYFER GWASANAETHAU

FLY  
THE  
FLAG

**FLY THE FLAG**

PECYN ADDYSG

2019

“Where, after all, do universal human rights begin? In small places, close to home – so close and so small that they cannot be seen on any maps of the world. Yet they are the world of the individual person; the neighbourhood he lives in; the school or college he attends; the factory, farm or office where he works. Such are the places where every man, woman and child seeks equal justice, equal opportunity, equal dignity without discrimination. Unless these rights have meaning there, they have little meaning anywhere. Without concerned citizen action to uphold them close to home, we shall look in vain for progress in the larger world.”

**ELEANOR ROOSEVELT,**  
CADEIRYDD COMISIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU DYNOL, 1958

# CYNNWYS

## CYFLWYNIAD

Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn	5
Gwybodaeth gefndir ddefnyddiol i athrawon	6
Nodyn ar y cynnwys	5
Nodyn ar iaith	5
Ynglŷn â <i>Fly The Flag</i>	7

## CYNRADD

### Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allwedd 2

Ysbrydoliaeth ar gyfer gwasanaethau	8
Myfyrddodau / cwestiynau trafod	11
Awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau dan arweiniad athrawon a myfyrwyr ar y cyd	11
Gwasanaeth 15 munud i fyfyrwyr nad ydynt wedi astudio hawliau dynol	12
Gwasanaeth 15 munud i fyfyrwyr sydd wedi astudio hawliau dynol	12

## UWCHRADD

### Cyfnodau Allweddol 3 a 4 a Safon U, UG

Ysbrydoliaeth ar gyfer gwasanaethau	13
Myfyrddodau / cwestiynau trafod	16
Awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau dan arweiniad athrawon a myfyrwyr ar y cyd	17
Gwasanaeth 15 munud i fyfyrwyr nad ydynt wedi astudio hawliau dynol	18
Gwasanaeth 15 munud i fyfyrwyr sydd wedi astudio hawliau dynol	18
Gwahoddiad <i>Writing Wrongs</i>	19

## ADNODDAU

<b>Erthygl Un, UDHR</b>	<b>22</b>
<b>Darlun Right up your Street Amnesty</b>	<b>23</b>
<b>Dyfywiad ‘<i>Small Places</i>’ Eleanor Roosevelt</b>	<b>24</b>
<b>Delwedd Eleanor Roosevelt</b>	<b>25</b>
<b>Delwedd Ai Weiwei</b>	<b>26</b>
<b>Delwedd Baner</b>	<b>27</b>
<b>Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, fersiwn cryno</b>	<b>28</b>
<b>Cwis cyflym Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol</b>	<b>31</b>
<b>Lincs i adnoddau ychwanegol</b>	<b>33</b>

# SUT I DDEFNYDDIO'R PECYN HWN

Bydd y pecyn hwn yn eich cefnogi i ddarparu gwasanaethau i gyflwyno eich myfyrwyr i'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR) a phrosiect *Fly The Flag*. Mae'n ategu'r adnoddau addysgu am ddim ar gyfer y Cyfnod Sylfaen – Safon Uwch sydd ar gael ar *wefan Fly The Flag*. Gellir defnyddio'r adnodd hwn i adeiladu ar wybodaeth y myfyriwr os yw wedi cwblhau'r gwersi *Fly The Flag*, a gall hefyd eich cefnogi i ddarparu gwasanaethau sy'n gyflwyniad i hawliau dynol.

Yn y pecyn hwn fe welwch ddewislen o awgrymiadau ac adnoddau y gallwch ddewis o'u plith i greu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion eich myfyrwyr a'ch ysgol. Mae wedi'i drefnu yn ôl lefel gynradd ac uwchradd. Gallwch ddefnyddio'r pecyn hwn i ddatblygu gwasanaeth ysgol neu flwyddyn gyfan, neu i greu moment o fyfyrddod yn y dosbarth neu amser tiwtor.

Bydd yr adran ' Gwybodaeth Gefndir Ddefnyddiol i Athrawon' yn sicrhau eich bod yn deall y cyd-destun hawliau dynol. Gallwch ddefnyddio hwn i gyflwyno eich gwasanaeth. Ceir awgrymiadau hefyd ar gyfer gwasanaethau y gall myfyrwyr gymryd rhan ynddynt, neu eu harwain ar y cyd gydag athrawon. Yng nghefn y pecyn fe welwch amrywiaeth o adnoddau y gallwch eu defnyddio i greu cyflwyniadau.



**Nodyn ar y cynnwys:** Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o amgylchiadau personol eich myfyrwyr a chynllunio'ch gwasanaeth yn unol â hynny. Mae'n bosibl nad yw rhai o hawliau dynol eich myfyrwyr yn cael eu diwallu ar hyn o bryd, er enghraifft, o ran tai, iechyd neu statws ffoaduriaid. Anogir codi a thrafod y materion hyn mewn gwasanaeth ond bydd angen sensitifrwydd a chefnogaeth.



**Nodyn ar iaith:** Mae *Fly The Flag* yn ofalus wrth ddefnyddio'r term 'dathlu'. Mae hwn yn benderfyniad ymwybodol sy'n cydnabod nad yw hawliau dynol llawer o bobl yn y DU a ledled y byd yn cael eu diwallu ar hyn o bryd. Mae hefyd yn cydnabod nad braint yw hawliau dynol.

## SUT I DDEFNYDDIO'R PECYN HWN

### GWYBODAETH GEFNDIR DDEFNYDDIOL I ATHRAWON

Mae *Fly The Flag* yn brosiect i annog pobl i ddysgu am eu hawliau dynol, ac i'w hamddiffyn.

Mae wythnos *Fly The Flag* arbennig rhwng 24-30 Mehefin 2019.

Mae llawer o wahanol sefydliadau celfyddydol ar draws y DU gyfan wedi cydweithio â sefydliadau hawliau dynol i sicrhau bod y prosiect yn digwydd. Nid yw llawer o bobl yn y DU yn ymwybodol o'u hawliau dynol, na sut y mae hawliau dynol yn effeithio'n gadarnhaol ar eu bywydau bob dydd.

Mae'r celfyddydau yn galluogi pobl i ddychmygu ffyrdd newydd o fod, neu o wneud pethau, a gallant chwarae rhan arwyddocaol yn y gwaith o greu newid ystyrlon, ar gyfer unigolion, cymunedau a systemau. Gall y celfyddydau ein helpu i ddysgu am ein hawliau dynol, eu mynegi a'u hamddiffyn.

Gofynnwyd i'r artist Ai Weiwei ddylunio baner fel symbol ar gyfer hawliau dynol.

Mae Ai Weiwei wedi profi torri ei hawliau dynol ac mae wedi creu gwaith celf a ffilmiau mewn ymateb i dorri hawliau dynol pobl, gan gynnwys rhai ffoaduriaid.

Mae'r faner yn rhywbeth y gall pobl ymgasglu o'i chwmpas. Gellir ei defnyddio i ddathlu, i brotestio neu ei hongian i roi gwybod i bobl bod lle penodol yn parchu hawliau dynol.

Mae pob ysgol yn y wlad wedi cael gwahoddiad i ymuno ac i *Fly The Flag*, gan ddysgu am hawliau dynol yn enwedig yn ystod wythnos *Fly The Flag*, 24-30 Mehefin 2019. Erthygl 26 o'r UDHR yw'r hawl i addysg ac i ddysgu am hawliau dynol.

Mae ein hawliau dynol yn ddiymwad ac yn anwahanadwy, mae hynny'n golygu bod gan bawb yr un hawliau, ni all neb eu cymryd oddi arnoch, ac mae pob hawl mor bwysig â'r lleill.

Gellir arfer hawliau dynol – er enghraifft, dod i'r ysgol am addysg am ddim, mwynhau'r celfyddydau, cael mynediad i ofal iechyd.

Gellir torri hawliau dynol - er enghraifft, pan na fydd pobl yn cael eu trin yn gyfartal oherwydd eu hil, rhyw, ffydd neu dueddfryd rhywiol, pan nad oes tai digonol ar gael i bobl, pan nad yw ffoaduriaid yn cael croeso rhywle.

Gellir amddiffyn hawliau dynol – drwy siarad am dorri hawliau dynol, drwy brotest, lobiö arweinwyr a sefydliadau a thrwy'r llysoedd.

Mae angen i ni wybod beth yw ein hawliau dynol er mwyn eu hamddiffyn.

# YNGLŶN Â FLY THE FLAG

Mae *Fly The Flag* yn gydweithrediad uchelgeisiol rhwng sefydliadau celfyddydol ac elusennau hawliau dynol, gan nodi 70ain mlwyddiant y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Gwahoddwyd yr artist a'r actifydd Ai Weiwei i ddylunio baner fel symbol o hawliau dynol cyffredinol, a ddadorchuddiwyd yn ein lansiad ar ddyddiad y pen-blwydd, sef 10 Rhagfyr 2018.

Deilliodd y prosiect o ganlyniad i sylweddoli nad yw llawer o bobl yn y DU heddiw yn gwybod beth yw eu hawliau dynol, a pheth peryglus iawn fyddai anghofio amdanynt.

Rhwng 24–30 Mehefin 2019, o Ucheldiroedd yr Alban i arfordir Cernyw drwy ddinasoedd, trefi a phentrefi ledled y DU, mewn orielau a theatrau, canolfannau siopa a swyddfeydd, ysgolion a llyfrgelloedd, yn gorfforol ac ar-lein, mae pobl yn dod at ei gilydd i gydnabod bod hawliau dynol i bawb, bob dydd. Rydym yn falch iawn bod eich ysgol yn ymuno â'r foment bwerus hon o obaith a chreadigrwyd gyda'n gilydd ledled y DU.

**Rydym yn eich gwahodd i rannu gweithgaredd  
*Fly The Flag* eich ysgol gyda ni ar y cyfryngau cymdeithasol.  
@FlyTheFlag70 #FlyTheFlag70**

# CYNRADD: YSBRYDOLIAETH AR GYFER GWASANAETHAU

Dewiswch o'r ddewislen hon o adnoddau i greu gwasanaeth sy'n addas i'ch myfyrwyr a'ch ysgol. Gallwch ddefnyddio hwn i greu gwasanaeth grŵp blwyddyn neu gyflwyniad a thrafodaeth grŵp tiwtor. Gallwch hefyd ddefnyddio'r Wybodaeth Gefndir Ddefnyddiol i Athrawon, ar dudalen 6, a'r adnoddau ar dudalennau 22 i 34 i greu cynnwys cyflwyniad. Mae rhai awgrymiadau yn fwy rhyngweithiol nag eraill.

Mae'r awgrymiadau hyn yn ategu'r adnoddau Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 sydd am ddim ar [wefan Fly The Flag](#) a gellir eu defnyddio i greu gwasanaeth cyn neu ar ôl i fyfyrwyr astudio hawliau dynol.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi gwyllo unrhyw gynnwys fideo er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'ch myfyrwyr a'ch ysgol. Gall yr adnoddau ar dudalennau 25 i 27 fod yn gymhorthion gweledol defnyddiol wrth i chi sôn am hawliau dynol a *Fly The Flag* yn fwy eang.

## FFILM: 'EVERYBODY'

 4 munud

*Everybody* – cyflwyniad Amnest Rhyngwladol i fideo animeiddiad a byw yr UDHR (hyd y ffilm: 3 mun 37 eiliad - i ddechrau'r credydau).

Mae'r ffilm fer hon yn cyflwyno'r UDHR gan ddefnyddio animeiddiadau yn seiliedig ar 'We Are All Born Free', llyfr lluniau i blant gan Amnest Rhyngwladol.

Gofynnwch i'r myfyrwyr beth oedden nhw'n ei gofio neu wedi sylwi arno yn y ffilm.

## GWEITHGAREDD RHYNGWEITHIOL: RIGHT UP YOUR STREET

 10 munud

Darluniad Amnest Rhyngwladol *Right up your Street* ar dudalen 23. Taf luniwch y ddelwedd hon ac arwain cwis syml.

A allwch chi weld - plant yn mynd i'r ysgol? Rhywun i bleidleisio drosto? Pobl yn siarad am eu crefydd? Pobl yn mwynhau amser gyda'u teulu? Pobl yn mwynhau cerddoriaeth? Pobl yn protestio am rywbeth y maent yn anhapus yn ei gylch?

Mae'r rhain i gyd yn enghreifftiau o bobl yn mwynhau eu hawliau dynol.

Pwy arall sy'n cael ei drin yn deg yn y llun hwn?

Pwy allai fod yn cael ei drin yn annheg yn y llun hwn? Plant sy'n filwyr, y person digartref, o bosib y bobl sy'n cael eu dwyn i'r carchar, y plentyn sydd ar fin cael ei daro.

Mae'r darlun hwn yn ymwneud yn llwyr â'n hawliau dynol, maent i bob un ohonom, ym mhobman.



## CYNRADD: YSBRYDOLIAETH AR GYFER GWASANAETHAU

### GWEITHGAREDD RHYNGWEITHIOL: DEALL ERTHYGL 1

 10 munud

Gofynnwch i athro, neu fyfyrwr, sefyll o flaen pawb a gofyn am awgrymiadau ynghylch beth sydd angen ar y person hwn er mwyn bod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel.

Gallai cwestiynau ysgogol gynnwys – ble maen nhw'n byw? Gyda phwy maen nhw'n byw? Beth mae ganddyn nhw yr hawl i'w wneud? Beth maen nhw'n ei wneud? Sut maen nhw'n aros yn iach?

Gallech chi ofyn i athro/athrawes arall ysgrifennu awgrymiadau'r myfyrwyr ar nodiadau 'post-it' a'u rhoi ar y person sy'n sefyll yn y blaen neu eu hysgrifennu ar siart droi neu fwrdd.

Rhannwch Erthygl 1 yr UDHR ar dudalen 22 y pecyn hwn. Gallech ofyn i fyfyrwr ddarllen y dyfyniad. Cofiwch gynnwys ddiffiniadau o ystyr y geiriau. Gallwch gyflwyno'r syniad o urddas drwy ofyn i'r myfyrwyr feddwl am adeg pan nad oedd rhywun yn eu parchu: sut deimlad oedd hynny? Pan fyddwn ni'n brifo pobl eraill gyda geiriau neu weithredoedd, dydyn ni ddim yn caniatáu urddas iddyn nhw.

Gwahoddwch y myfyrwyr i sylwi sut mae'r pethau y mae eu hangen ar berson i fod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel hefyd yn eu galluogi i brofi rhyddid, cydraddoldeb ac urddas. Mae'r rhain i gyd yn hawliau dynol – pethau y mae gennym hawl iddynt, dim ond drwy fod yn ddynol.

### GWEITHGAREDD RHYNGWEITHIOL: 'SMALL PLACES'

 5 munud

Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am yr holl leoedd y maen nhw'n mynd iddyn nhw. Gallech wneud rhestr gyda'ch gilydd. Er enghraifft, ysgol, cartref, cartrefi ffrindiau, y parc, y pwll nofio, siopau, llyfrgell ac ati.

Tafluniwch y ddelwedd o Eleanor Roosevelt, tudalen 25.

Dyma Eleanor Roosevelt, Americanaes a gafodd ei gwneud yn gyfrifol am helpu gwledydd i gytuno ar yr hyn y dylai'r rhestr hawliau dynol fod yn 1948. Anfonodd llawer o lywodraethau gynrychiolwyr i gael y sgysiau hyn ac yn y pen draw cynhyrchwyd rhestr ganddynt, o'r enw y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Mae'r rhestr hon wedi'i chyfieithu i fwy o ieithoedd nag unrhyw beth arall, ac mae deddfau llawer o wahanol wledydd yn seiliedig ar y rhestr hon. Fodd bynnag, roedd Eleanor Roosevelt yn meddwl fel a ganlyn: *'human rights begin... in small places, close to home – so close and so small that they cannot be seen on any maps of the world.'*

## CYNRADD: YSBRYDOLIAETH AR GYFER GWASANAETHAU

### GWEITHGAREDD RHYNGWEITHIOL: 'SMALL PLACES' PARHAD

Gallech wahodd myfyrwyr i siarad â'r person sy'n eistedd wrth eu hymyl neu wahodd awgrymiadau gan y gwasanaeth cyfan. Pam ei bod yn bwysig eich bod yn cael eich trin yn gyfartal yn [lleoedd a awgrymir gan y myfyrwyr]? Pam ei bod yn bwysig eich bod yn cael eich trin yn gyfartal yn [lleoedd a awgrymir gan y myfyrwyr]? Beth allwch chi ei wneud yn [lleoedd a awgrymir gan fyfyrwyr] i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin ag urddas?

### GWEITHGAREDD ARSYLWI A MYFYRIO: Y FANER, BETH MAE'N EI OLYGU?

 3 munud

Tafluniwch y faner, tudalen 27.

Beth yw'r ddelwedd hon? Beth mae'n ei olygu/  
beth mae'n symbol ohono yn eich barn chi?

Dyma ddelwedd o faner a ddyluniwyd gan yr  
arlunydd Ai Weiwei i fod yn symbol ar gyfer  
hawliau dynol.

Pam mae gan artistiaid, a sefydliadau celfyddydol  
fel theatrau ac orielau ddiddordeb mewn hawliau  
dynol? Gall artistiaid, a gwneud celfyddyd  
– ysgrifennu, arlunio, theatr, cerddoriaeth  
– newid y ffordd yr ydym yn meddwl ac yn  
gweithredu. Gall y celfyddydau ein helpu i  
symud yn nes at fyd lle mae hawliau dynol  
pawb yn cael parchu. Yr hawl i wneud a  
mwynhau celfyddyd yw un o'n hawliau dynol.

# CYNRADD: YSBRYDOLIAETH AR GYFER GWASANAETHAU

## CWESTIYNAU MYFYRIO

---

A all caredigrwydd a thegwch newid y byd?

---

Pam mae gwneud celfyddyd yn bwysig?

---

A all pobl gyffredin newid y byd? Sut?

---

Beth allwch chi ei wneud i drin pawb yn deg?

## AWGRYMIADAU AR GYFER GWASANAETHAU DAN ARWEINIAD ATHRAWON A MYFYRWYR AR Y CYD

---

Gall myfyrwyr unigol neu grwpiau bach greu darlun i ddarlunio erthyglau penodol, gall y rhain ffurfio arddangosfa neu gellir tynnu lluniau ohonynt a'u defnyddio mewn PowerPoint.

---

Gall myfyrwyr greu cyfres o dablôs (fframiau neu ddelweddau llonydd) i gynrychioli erthyglau penodol o'r UDHR, gyda'r athro neu'r athrawes neu fyfyrwyr eraill yn darllen yr erthygl.

---

Rhannwch y baneri y mae'r myfyrwyr yn eu gwneud fel rhan o wersi *Fly The Flag*.

---

Rhannwch ddatganiad dosbarth, wedi'i greu fel gweithgaredd dilynol i'r wersi *Fly The Flag*.

---

Rhannwch gyflwyniad am Eleanor Roosevelt neu Ai Weiwei, wedi'i greu fel gweithgaredd dilynol i'r wersi *Fly The Flag*.

## CYNRADD: AWGRYMIADAU AR GYFER GWASANAETHAU

### GWASANAETH I FYFYRWYR NAD YDYNT WEDI ASTUDIO HAWLIAU DYNOL

 15 munud

Gan ddechrau gyda baner *Fly The Flag* wedi'i thaflunio - defnyddiwch y *Wybodaeth Gefndir Ddefnyddiol* i Athrawon ar dudalen 6 i'ch helpu i gyflwyno'r gwasanaeth a'r faner a ddyluniwyd gan Ai Weiwei (3 munud).

Dangoswch ffilm Amnest Rhyngwladol *Everybody* (4 munud).

Gwnewch y gweithgaredd rhyngweithiol '*Small Places*' (5 munud).

Dewiswch gwestiwn myfyrio ar gyfer myfyrio tawel neu drafodaeth â phartner, neu yn ôl yn yr ystafell ddosbarth (3 munud).

### GWASANAETH I FYFYRWYR SYDD WEDI ASTUDIO HAWLIAU DYNOL

 15 munud

Dechreuwch gyda baner *Fly The Flag* wedi'i thaflunio - gofynnwch i'r myfyrwyr eich atgoffa beth yw'r faner a defnyddiwch y *Wybodaeth Gefndir Ddefnyddiol* i Athrawon ar dudalen 6 i'ch helpu i gyflwyno'r gwasanaeth a'r faner a gynlluniwyd gan Ai Weiwei (3 mun).

Gwnewch y Gweithgaredd Rhyngweithiol - Deall Erthygl 1 (10 munud).

Dewiswch gwestiwn myfyrio ar gyfer myfyrio tawel, neu drafodaeth gyda phartner, neu yn ôl yn yr ystafell ddosbarth (2 funud).

# UWCHRADD: YSBRYDOLIAETH AR GYFER GWASANAETHAU

Dewiswch o'r ddewislen hon o adnoddau i greu gwasanaeth sy'n addas i'ch myfyrwyr a'ch ysgol. Gallwch ddefnyddio hwn i greu gwasanaeth grŵp blwyddyn neu gyflwyniad a thrafodaeth grŵp tiwtor. Gallwch hefyd ddefnyddio'r Wybodaeth Gefndir Ddefnyddiol i Athrawon, ar dudalen 6, a'r adnoddau ar dudalennau 22 i 34 i greu cynnwys cyflwyniad. Mae rhai awgrymiadau yn fwy rhyngweithiol nag eraill.

Mae'r awgrymiadau hyn yn ategu'r adnoddau Cyfnod Allweddol 3, 4 a Safon UG ac U sydd am ddim ar [wefan Fly The Flag](#) a gellir eu defnyddio i greu gwasanaeth cyn neu ar ôl i fyfyrwyr astudio hawliau dynol.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi gwyllo unrhyw gynnwys fideo er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'ch myfyrwyr a'ch ysgol. Gall yr adnoddau ar dudalennau 25 i 27 fod yn gymhorthion gweledol defnyddiol wrth i chi sôn am hawliau dynol a siarad yn fwy eang.

Efallai y byddwch am archebu Pasbortau 'Fy Hawliau' am ddim Amnest Rhyngwladol i'w dosbarthu i fyfyrwyr. Mae manylion ynghylch sut i'w harchebu ar dudalen 34.

## FFILM: CYFLWYNIAD I'R UDHR

 5 munud

Mae'r ffilmiau canlynol yn fan cychwyn defnyddiol neu'n sesiwn gloywi i atgoffa myfyrwyr beth yw eu hawliau dynol.

[Fideo Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#) (1 mun 49 eiliad). Cyflwyniad i hawliau dynol, a'r UDHR gyda ffocws penodol ar y DU, NEU.

[Amnest Rhyngwladol: Human Rights in Two Minutes](#) (2 funud 33 eiliad). Cyflwyniad i ddatblygiad yr UDHR, a throsolwg o'r gwahanol hawliau, eu hanwahanadwyedd a rôl pawb wrth gynnal yr hawliau hynny.

Gofynnwch i'r myfyrwyr faint o'u hawliau dynol y gallan nhw eu henwi? Pam mae'n bwysig gwybod beth yw eich hawliau dynol? (Os ydych yn gwybod beth ydynt gallwch eu hamddiffyn, a herio'r rhai sy'n eu torri).

## FFILM: YNGLŶN Â FLY THE FLAG

 10 munud

[Ai Weiwei yn sôn am Fly The Flag](#) (hyd y ffilm: 2 funud 35 eiliad) – os oes gan eich myfyrwyr peth gwybodaeth am hawliau dynol.

Ffilm fer lle mae Ai Weiwei yn sôn am ei broses ddylunio ar gyfer y faner, hawliau dynol a sut mae pob un ohonom yn gyfrifol am eu hamddiffyn.

Beth ydych chi'n ei feddwl am yr ôl troed fel symbol ar gyfer hawliau dynol? Beth ydych chi'n sylwi am broses Ai Weiwei o ddylunio'r faner?

Yn eich barn chi, pam mae prosiect *Fly The Flag* yn digwydd ar hyn o bryd? (Nid oes llawer o bobl yn gwybod eu hawliau dynol, mae hawliau dynol mewn perygl yn y DU a ledled y byd).

## UWCHRADD: YSBRYDOLIAETH AR GYFER GWASANAETHAU

### FFILM: YNGLŶN Â FLY THE FLAG PARHAD

Pam mae gan artistiaid, a sefydliadau celfyddydol fel theatrau ac orielau ddiddordeb mewn hawliau dynol? (Mae artistiaid, a gwneud celfyddyd – ysgrifennu, arlunio, theatr, cerddoriaeth – yn gallu newid y ffordd yr ydym yn meddwl ac yn ymddwyn. Gall y celfyddydau ein helpu i symud yn nes at fyd lle perchir hawliau dynol pawb. Mae'r hawl i wneud a mwynhau celfyddyd yn un o'n hawliau dynol).

### FFILM: WARNING SIGNS

 10 munud

**Fideo Rights Info: The Warning Signs** (hyd y ffilm: 5 munud 37 eiliad) – os oes gan eich myfyrwyr peth gwybodaeth am hawliau dynol.

Mae'r ffilm fer hon yn canolbwyntio ar dri achlysur mewn hanes pan mae hawliau dynol pobl wedi cael eu torri yn y ffordd fwyaf eithafol, drwy hil-laddiad - lladd grŵp mawr o bobl o genedl neu ethnigrwydd penodol yn fwriadol.


Yn y fideo hwn, mae tri o bobl â phrofiad byw yn disgrifio'r broses a arweiniodd at hil-laddiad, yn enwedig gosod grwpiau penodol o bobl ar wahân, eu dad-ddyneiddio ac erydu eu hawliau.

Gofynnwch i'r myfyrwyr beth roedden nhw wedi'i sylwi ac a ydyn nhw'n adnabod unrhyw beth y soniwyd amdano yn y ffilm sy'n digwydd nawr? A ydyn nhw'n adnabod unrhyw rai o'r pethau hyn yn y cymunedau lle maent yn byw? Gofynnwch am enghreifftiau.

Gofynnwch am awgrymiadau ynghylch sut y gallan nhw herio'r ymddygiadau a'r gweithredoedd hyn ac amddiffyn hawliau dynol? Cyfrifoldeb pwy yw amddiffyn hawliau dynol?

## UWCHRADD: YSBRYDOLIAETH AR GYFER GWASANAETHAU

### GWEITHGAREDD DARLLEN A MYFYRIO: 'SMALL PLACES'

 5 munud

Tafluniwch ddyfyniad 'Small Places' Eleanor Roosevelt, tudalen 24 a'i ddarllen yn uchel.

Cyflwynwch mai Eleanor Roosevelt oedd Cadeirydd Comisiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol. Rheolodd y broses lle cafodd y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR) ei ysgrifennu yn 1948. Gweithiodd hi gyda chynrychiolwyr o 48 o wledydd i greu yr UDHR, y ddogfen a gyfieithiwyd fwyaf yn y byd. Nid yw hon yn ddogfen gyfreithiol ond mae wedi bod yn sail i gyfreithiau a chyfansoddiadau mewn llawer o wledydd.

Gofynnwch i'r myfyrwyr ym mha leoedd y maen nhw'n profi eu hawliau dynol. Er enghraifft, yr ysgol – addysg am ddim, meddygon/ysbytai – gofal iechyd am ddim.

A ydynt yn cytuno â'i datganiad? Os ydynt, pam?

Os na, pam felly?

### GWEITHGAREDD DARLLEN A MYFYRIO: RHAGYMDRODD

 5 munud

Tafluniwch y Rhagair i'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, tudalen 30.

Esboniwch mai dyma'r cyflwyniad i'r rhestr o 30 o erthyglau neu hawliau. Mae'n rhoi cyd-destun ynghylch pam y crëwyd y Datganiad Cyffredinol a'r hyn y mae am ei gyflawni.


Darllenwch y Rhagymadrodd.

Gofynnwch i'r myfyrwyr beth maent yn sylwi am y testun.

A ydym wedi gwireddu ei ddyheadau o 1948? Beth maen nhw'n meddwl y gallen nhw ei ychwanegu pe bydden nhw'n ysgrifennu hyn nawr?

# UWCHRADD: YSBRYDOLIAETH AR GYFER GWASANAETHAU

## GWEITHGAREDD DARLLEN A MYFYRIO: UDHR

 15 munud

Tafluniwch a/neu dosbarthwch y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol wedi'i symleiddio, tudalennau 28 i 29.

Darllenwch drwy'r hawliau i gyd.

Gofynnwch i'r myfyrwyr pa rai o'r hawliau dynol hyn y maent yn eu teimlo sy'n cael eu parchu yn y DU. (Addysg am ddim, gofal iechyd).

Pa hawliau sy'n cael eu torri yn y DU ar hyn o bryd ac i bwy? (Os ydych yn ddigartref, nid yw eich hawliau o dan Erthygl 22 yn cael eu diwallu).

Pa hawliau a allent fod yn gwrthdaro â'i gilydd? Er enghraifft, pryd y gallai arfer Erthygl 19, Rhyddid Mynegiant, yr hawl i feddwl yr hyn yr ydym yn ei ddewis, i ddweud ein barn', wrthdaro â hawliau eraill? (Wrth ddefnyddio iaith casineb, fel iaith casineb hiliaeth, rhywedd neu iaith casineb sy'n seiliedig ar ffydd neu os yw'n ysgogi trais). Sut y gallwn gydbwysu'r hawliau hyn?

## GWEITHGAREDD RHYNGWEITHIOL: CWIS CYFLYM UDHR

 3 munud

Arweiniwch y myfyrwyr drwy'r cwis ar dudalen 32. Gellid rhannu'r myfyrwyr yn dimau dosbarth neu fwrdd yn dibynnu ar y cyd-destun.

Arweiniwch drafodaeth fer ynghylch a yw myfyrwyr o'r farn ei bod yn bwysig dysgu eu hawliau dynol. Beth allai ddigwydd os nad ydynt yn gwybod eu hawliau dynol?

## CWESTIYNAU MYFYRIO

Gellir defnyddio'r cwestiynau hyn ar gyfer myfyrion tawel, trafod â phartner, ysgogi trafodaeth yn yr ystafell ddosbarth, neu ar gyfer trafodaeth mewn gwasanaeth.

Rhannwch ddyfyniad Margaret Mead ar dudalen 31. A ydych yn cytuno â hi? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i amddiffyn hawliau dynol?

Sut fyddai'r byd yn wahanol pe bai pob hawl ddynol yn cael ei pharchu?

Sut gall artistiaid – cerddorion, llenorion, artistiaid gweledol - newid y byd rydym y byw ynddo?



## UWCHRADD: YSBRYDOLIAETH AR GYFER GWASANAETHAU

### CWESTIYNAU MYFYRIO PARHAD

Mae Llywodraeth y DU wedi defnyddio cadw'n amhenodol – carcharu heb brawf neu ddyddiad dod i ben ar gyfer pobl sy'n cael eu hamau o derfysgaeth. Yn aml, nid oedd llawer o'r bobl hyn yn gwybod beth oedd y cyhuddiadau yn eu herbyn, yn cael cyfle i'w hamddiffyn eu hunain yn y llys (neu mewn ffordd arall) neu'n gwybod pryd y gallent gael eu rhyddhau. Dywedodd Llywodraeth y DU fod hyn yn hanfodol i gadw pobl yn ddiogel. Beth yw eich barn am y penderfyniad hwn?

Mae llawer o sefydliadau hawliau dynol yn ymgyrchu yn erbyn y gosb eithaf mewn gwledydd lle mae'n cael ei defnyddio, gan gynnwys America. Os oes gan wlad y gosb eithaf o hyd, a fydddech chi'n ymweld â hi neu'n prynu pethau a wnaed yno? Pam, neu pam ddim?

Sut y byddwch chi'n *Fly The Flag* dros hawliau dynol?

### AWGRYMIADAU AR GYFER GWASANAETHAU SY'N CAEL EU HARWAIN AR Y CYD GAN ATHRAWON A MYFYRWYR

Gallai'r myfyrwyr greu golygfeydd byr sy'n dangos pob un o'r hawliau, naill ai'n cael eu hamddiffyn neu eu torri. Gallech annog myfyrwyr i ymchwilio i storïau newyddion er mwyn defnyddio enghreifftiau o fywyd go iawn, cyfoes.

Gallai'r myfyrwyr greu ffilm fer lle maent yn darllen yr UDHR. Gallai gwahanol fyfyrwyr ddatgan hawl mewn gwahanol leoliadau o amgylch yr ysgol neu yn y gymuned. Gallech adlewyrchu'r holl ieithoedd gwahanol sy'n cael eu defnyddio yng nghymuned eich ysgol.

Rhannwch gyflwyniad, gan ddefnyddio'r gweithgaredd dilynol yn y [cynlluniau gwersi \*Fly The Flag\*](#). Gallai hyn fod ynglŷn ag Eleanor Roosevelt, Ai Weiwei neu un astudiaethau achos Student Database (KS3), Student Protests (KS4) neu Drill Music (Safon UG/U).

Gallai myfyrwyr ddefnyddio gwasanaeth i godi ymwybyddiaeth o ymgyrch benodol y maent wedi'i chreu, wedi'i hysbrydoli gan y cynlluniau gwersi.

## UWCHRADD: AWGRYMIADAU AR GYFER GWASANAETHAU

### GWASANAETH I FYFYRWYR NAD YDYNT WEDI ASTUDIO HAWLIAU DYNOL

 15 munud


Dechreuwch gyda baner *Fly The Flag* wedi'i thaflunio - gofynnwch i'r myfyrwyr beth mae'r faner yn ei chynrychioli a defnyddiwch y Wybodaeth Gefndir Ddefnyddiol i Athrawon ar dudalen 6 i'ch helpu i gyflwyno'r gwasanaeth a'r faner a gynlluniwyd gan Ai Weiwei (3 mun).

Dangoswch y ffilm Cyflwyniad i'r UDHR - Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y DU a gofynnwch gwestiynau (5 munud).

Dangoswch y ffilm 'About the *Fly the Flag*' a gofynnwch gwestiynau (5 munud).

Dewiswch gwestiwn myfyrion ar gyfer myfyrion tawel, neu drafodaeth gyda phartner, neu yn ôl yn yr ystafell ddosbarth (2 funud).

### GWASANAETH I FYFYRWYR SYDD WEDI ASTUDIO HAWLIAU DYNOL

 15 munud

Dechreuwch gyda baner *Fly The Flag* wedi'i thaflunio - defnyddiwch y Wybodaeth Gefndir Ddefnyddiol i Athrawon ar dudalen 6 i'ch helpu i gyflwyno'r gwasanaeth a'r faner a ddyluniwyd gan Ai Weiwei (3 munud).

Dangoswch fideo Rights Info: 'The Warning Signs' a gofynnwch gwestiynau (10 munud).

Gwnewch y gweithgaredd darllen a myfyrion 'Small Places' (5 munud).

Gofynnwch i'r myfyrwyr sut y byddant yn *Fly The Flag* dros hawliau dynol? (2 funud).


## WRITING WRONGS

Wedi'i ysbrydoli gan *Fly The Flag*, mae Donmar Warehouse wedi cynhyrchu cyfres o ffilmiau byr gydag awduron a grwpiau cymunedol sy'n ymateb i bwnc hawliau dynol.

Bu awduron yn gweithio gyda chyfranogwyr i gynhyrchu monologau, cerddi, y gair llafar, ac areithiau y gallwch ddod o hyd iddynt yma. Mae'r ffilmiau yn ffordd greadigol i'r rhai sy'n cymryd rhan, yn hen ac ifanc, archwilio sut mae'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol yn rhan o'u bywydau bob dydd.


Cynlluniwyd y prosiect ar-lein hwn i annog eraill i wneud eu ffilmiau Writing Wrongs eu hunain a chreu sgwrs genedlaethol. Mae hwn yn gyfle i ganiatáu i bobl ifanc archwilio a deall grym eu geiriau eu hunain, ac ysgogi pobl eraill yn eu cymuned i feddwl hefyd am eu hawliau dynol trwy gynhyrchu eu ffilmiau eu hunain.

Er mwyn helpu athrawon a phobl ifanc i ddatblygu eu ffilm *Writing Wrongs* eu hunain, mae'r tîm y tu ôl i'r prosiect wedi cynhyrchu'r fideo 'How to' byr hwn sy'n rhannu cipolwg ar eu proses.



Beth am archwilio hawliau dynol drwy ysgrifennu creadigol a ffilm?

Byddwn wrth ein bodd pe byddai'ch myfyrwyr yn creu ac yn rhannu eu ffilmiau *Writing Wrongs* eu hunain.



## CAM UN: DEWCH O HYD I'CH YSBRYDOLIAETH

Dechreuwch trwy edrych ar yr **UDHR** gyda'ch myfyrwyr a gofyn iddynt feddwl pa un o'r erthyglau sy'n denu eu sylw fwyaf. Un o amcanion allweddol *Fly The Flag* a *Writing Wrongs* yw meddwl am hawliau dynol ar lefel leol a phersonol – sut mae cysylltu'r erthyglau â'n bywydau bob dydd?

Gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried pam mae ganddynt ddiddordeb mewn erthygl benodol, neu ddetholiad o erthyglau, a sut y gallai gysylltu â hwy neu bobl o'u hamgylch?

Ystyriwch pa ysgogiadau eraill y gellid eu defnyddio fel man cychwyn – darn o gerddoriaeth, ffotograff, erthygl, ffilm ayyb.

## CAM DAU: YSGRIFENNWCH EICH MONOLOG

Gan ddefnyddio'r erthyglau y mae'r myfyrwyr yn dymuno eu harchwilio, gofynnwch iddynt feddwl am yr hyn y maen nhw am ysgrifennu amdano yn benodol ac ar gyfer pwy mae hyn.

Anogwch y myfyrwyr i gadw'r syniad mor glir a phwrpasol â phosib ac i feddwl am y daith drwy'r darn y maen nhw'n ei ysgrifennu – beth yw'r dechrau, y canol a'r diwedd? A oes syniad neu ddelwedd yr hoffech ei gadael gyda'ch cynulleidfa?

I ddechrau arni, efallai y byddwch am ystyried cael y myfyrwyr i wneud dau neu dri munud o waith ysgrifenedig rhydd o amgylch y man cychwyn y maent wedi'i ddewis (mae llawer o gyfarwyddiadau ar sut i wneud hyn ar-lein).

Gellir ysgrifennu'r testun o safbwynt personol fel araith neu ddarn o air llafar, neu gall fod yn fwy o fonolog sy'n cael ei hysgrifennu o safbwynt cymeriad. Gall y safbwynt y mae wedi'i ysgrifennu ynddo newid sut rydych yn paratoi ar gyfer hyn o ran strwythur ac adeiladu cymeriad.

## CAM TRI: YMARFER A PHERFFORMIO

Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am yr hyn sy'n gwneud perfformiad da – beth mae perfformwyr yn ei wneud er mwyn ennyn diddordeb eu cynulleidfa a sicrhau bod eu syniadau yn cael eu clywed?

Ystyriwch gyflymdra'r testun, lefel y sain, ynganiad ac ati. Meddyliwch am gyswllt llygad â'r camera/cynulleidfa a ble y gallai pwynt ffocws y perfformwyr fod (a yw'n uniongyrchol i'r camera neu'n edrych i ffwrdd o'r camera at gymeriad arall).

## CAM PEDWAR: FFILMIO EICH MONOLOG

Pethau i'w hystyried wrth ddewis lleoliad: A yw'r darn yn mynnu lleoliad penodol – os nad ydyw, pa leoliad fydd yn lleoliad ffilmio addas neu'n gwella naws neu awyrgylch yr hyn rydych yn ceisio ei gyfleu?

A all rhywun eich helpu i ffilmio, neu a allwch chi ffilmio eich hun?

Ydy'r gofod yn ddigon tawel i gipio eich llais?

Ble mae'r ffynhonnell golau? (Ceisiwch beidio â ffilmio gyda golau y tu ôl i chi, sicrhewch ei fod o'ch blaen neu wrth eich ochr).

Pethau i'w hystyried fel perfformiwr: Beth ydych chi neu eich cymeriad yn ei wisgo?

A oes angen i chi/eich cymeriad berfformio mewn ffordd arbennig e.e. ydy nodweddion corfforol y cymeriad yn wahanol i'ch rhai chi? Sut maen nhw'n siarad – a yw hyn yn wahanol i'r ffordd y byddech chi'n siarad fel arfer?

Ffilmio: Gwnewch yn siŵr eich bod yn ffilmio mewn dull tirlun yn hytrach na phortread, a chadwch y camera ar arwyneb nad yw'n symud – neu'n ddelfrydol yn cael ei ddal gan rywun arall.

Ystyriwch a ydych yn dymuno cynnwys arwydd, fel yn y fideos *Writing Wrongs* i dywys pobl eraill yn ôl i'r prosiect.

## CAM PUMP: LLWYTHO

Dangoswch i'r bobl ifanc sut i lwytho eu ffilmau naill ai drwy eu sianel YouTube neu Vimeo eu hunain, neu ar sianel yr ysgol neu'r coleg.

Pan fyddwch yn llwytho, rhowch enw'r prosiect, teitl y darn ac enw cyntaf y myfyriwr e.e. *Writing Wrongs*: Red gan Loren.

## RHANNWCH GYDA PHAWB!

Wrth rannu trwy Twitter, Instagram neu Facebook, defnyddiwch yr hashnod #WritingWrongs a @donmarwarehouse fel bod y ffilmau yn gallu cael eu gweld gan Donmar ac eraill sydd wedi gwneud eu ffilmau eu hunain. Dylech hefyd gynnwys yr hashnod #FlyTheFlag70 a @FlyTheFlag70

“Genir pawb yn rhydd  
ac yn gydradd â'i gilydd  
mewn urddas  
a hawliau.”

**ERTHYGL 1, DATGANIAD CYFFREDINOL O HAWLIAU DYNOL**





“Where, after all, do universal human rights begin? In small places, close to home – so close and so small that they cannot be seen on any maps of the world. Yet they are the world of the individual person; the neighbourhood he lives in; the school or college he attends; the factory, farm or office where he works. Such are the places where every man, woman and child seeks equal justice, equal opportunity, equal dignity without discrimination. Unless these rights have meaning there, they have little meaning anywhere. Without concerned citizen action to uphold them close to home, we shall look in vain for progress in the larger world.”

**ELEANOR ROOSEVELT,**  
CADEIRYDD COMISIWN Y CENHEDLOEDD UNEDIG AR HAWLIAU DYNOL, 1958







**Eleanor Roosevelt o'r Unol Daleithiau  
yn dal poster Datganiad Cyffredinol  
o hawliau dynol yn Ffrangeg**

Llun y Cenhedloedd Unedig, Tachwedd 1949,  
y Cenhedloedd Unedig (Lake Success),  
Efrog Newydd






Ai Weiwei

Llun gan Camilla Greenwell





*Fly The Flag - Ai Weiwei*



# FERSIWN CRYNO O'R DATGANIAD CYFFREDINOL O HAWLIAU DYNOL

**Erthygl 1** – Cawson ni ein geni'n rhydd ac yn gyfartal, a dylen ni drin pobl eraill yn yr un ffordd.

**Erthygl 2** – Mae gyda ni'r hawliau hyn i gyd yn y Datganiad, pwy bynnag rydyn ni, o ble rydyn ni'n dod neu mewn beth rydyn ni'n ei gredu.

**Erthygl 3** – Mae gyda ni'r hawl i fywyd, i fod yn rhydd ac i deimlo'n ddiogel.

**Erthygl 4** – Nid oes gan unrhyw un yr hawl i'n gwneud ni'n gaethweision. Ni allwn wneud unrhyw un arall yn gaethwas i ni.

**Erthygl 5** – Does gan neb yr hawl i'n brifo, i'n poenydio na'n bychanu.

**Erthygl 6** – Mae gan bawb yr hawl i gael eiu ddiogelu gan y gyfraith.

**Erthygl 7** – Mae'r gyfraith yr un peth i bawb. Mae'n rhaid iddi ein trin ni i gyd yn deg.

**Erthygl 8** – Gall pob un ohonom ofyn i'r gyfraith ein helpu ni pan na chawn ein trin yn deg.

**Erthygl 9** – Does gan neb yr hawl i'n rhoi yn y carchar, nac ein hanfon i ffwrdd o'n gwlad, heb resymau da.

**Erthygl 10** – Os cawn ni ein cyhuddo o dorri'r gyfraith, mae gyda ni'r hawl i brawf teg a chyhoeddus.

**Erthygl 11** – Ddylai neb gael y bai am wneud rhywbeth nes bod prawf ei fod wedi ei wneud.

**Erthygl 12** – Does gan neb yr hawl i fynd i mewn i'n cartref, agor ein llythyrau, nac ein poeni ni neu'n teuluoedd heb reswm da.

**Erthygl 13** – Mae gan bob un ohonom yr hawl i fynd lle bynnag y mynnom yn ein gwlad ein hun, ac i deithio dramor fel y dymunwn.

**Erthygl 14** – Os bydd rhywun yn ein brifo ni, mae gyda ni'r hawl i fynd i wlad arall i ofyn am amddiffyniad.

**Erthygl 15** – Mae gan bob un ohonom yr hawl i berthyn i wlad.

**Erthygl 16** – Pan fyddwn ni'n ddigon hen yn ôl y gyfraith, mae gyda ni'r hawl i briodi a chael teulu.

**Erthygl 17** – Mae gan bawb yr hawl i berchen ar bethau neu eu rhannu nhw.



# FERSIWN CRYNO O'R DATGANIAD CYFFREDINOL O HAWLIAU DYNOL

**Erthygl 18** – Mae gyda ni i gyd yr hawl i'n meddyliau ein hunain ac i gredu mewn unrhyw grefydd.

**Erthygl 19** – Rydyn ni'n gallu meddwl am beth bynnag rydyn ni eisiau, dweud beth rydyn ni'n ei feddwl a rhannu syniadau a gwybodaeth gyda phobl eraill.

**Erthygl 20** – Mae gyda ni i gyd yr hawl i gwrdd â'n ffrindiau a gweithio gyda'n gilydd mewn heddwch i amddiffyn ein hawliau. Dydy e ddim yn iawn i orfodi rhywun i ymuno â g r w ^ p.

**Erthygl 21** – Mae gan bob un ohonom yr hawl i gymryd rhan yn llywodraeth ein gwlad. Dylai pob oedolyn gael yr hawl i ddewis eu harweinyddion ei hun.

**Erthygl 22** – Dylai'r lle rydyn ni'n byw ein helpu i ddatblygu a gwneud y gorau o'r holl fanteision (diwylliant, gwaith, lles cymdeithasol) sydd ar gael. Mae cerddoriaeth, celf, crefft a chwaraeon i bawb eu mwynhau.

**Erthygl 23** – Mae gan bob oedolyn yr hawl i swydd, yr hawl i gy og teg am eu gwaith, ac i ymuno ag undeb llafur.

**Erthygl 24** – Mae gyda ni i gyd yr hawl i orffwys ac amser rhydd.

**Erthygl 25** – Mae gyda ni i gyd yr hawl i safon bywyd da, gan gynnwys digon o fwyd, dillad, tai a chymorth meddygol os ydyn ni'n sâl. Mae gyda mamau a phlant a phobl sy'n hen, yn ddi-waith, neu'n anabl yr hawl i gael gofal.

**Erthygl 26** – Mae gyda ni i gyd yr hawl i addysg.

**Erthygl 27** – Maegydanii gydyr hawlirannucelfa gwyddoniaeth ein cymuned, a'r pethau da maen nhw'n eu gwneud.

**Erthygl 28** – Mae'n rhaid cael heddwch a threfn er mwyn amddiffyn yr hawliau a'r rhyddid hyn, ac rydyn ni'n gallu eu mwynhau yn ein gwlad ni a ledled y byd.

**Erthygl 29** – Mae dyletswydd arnom dros bobl eraill, a dylem ddiogelu eu hawliau a'u rhyddid.

**Erthygl 30** – Ni all neb gymryd yr hawliau a'r rhyddid hyn oddi arnom. Dyma fersiwn syml o Ddatganiad Cyffredinol Hawliau Dynol gan Amnest Rhyngwladol DU.



“Never doubt that a small group of thoughtful, committed citizens can change the world; indeed, it’s the only thing that ever has.”

**MARGARET MEAD,**

ANTHROPOLEGYDD AC ACTIFYDD HAWLIAU MENYWOD (1901-1978)



## CWIS CYFLYM Y DATGANIAD CYFFREDINOL O HAWLIAU DYNOL

Sawl erthygl , neu hawl, sydd wedi'u rhestru yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol?

- A) 12
- B) 20
- C) 30

I sawl iaith y cafodd y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol ei gyfieithu?

- A) 257
- B) 370
- C) 401

Sawl gwlad a lofnododd y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol yn wreiddiol?

- A) 7
- B) 48
- C) 73

Ar 10 Rhagfyr 2018 beth oedd oed y Datganiad Cyffredinol?

- A) 70 mlwydd oed
- B) 90 mlwydd oed
- C) 110 mlwydd oed



## CWIS CYFLYM Y DATGANIAD CYFFREDINOL O HAWLIAU DYNOL ATEBION

Sawl erthygl , neu hawl, sydd wedi'u rhestru yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol?

**C) 30**

**Sawl un o'ch hawliau y gallwch chi eu henwi?**

**Pam mae'n bwysig i wybod eich hawliau?**

I sawl iaith y cafodd y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol ei gyfieithu?

**B) 370**

**Record byd am fod y testun a gyfieithiwyd fwyaf.**

Sawl gwlad a lofnododd y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol yn wreiddiol?

**B) 48**

**Y DU oedd un o'r llofnodwyr gwreiddiol. Mae llawer mwy o wledydd bellach wedi'i fabwysiadu. Nid yw'r UDHR yn ddogfen gyfreithiol rwymol, er ei bod yn ffurfio sail llawer o gyfreithiau a chyfansoddiadau llawer o wledydd.**

Ar 10 Rhagfyr 2018 beth oedd oed y Datganiad Cyffredinol?

**A) 70 mlwydd oed**

**Llofnodwyd y datganiad ar 10 Rhagfyr 1948. Mae llawer o bobl yn fyw heddiw a anwyd i fyd nad oedd ar y cyd wedi cydnabod eu hawl i fywyd, i addysg nac i briodi pwy oeddent yn ei ddewis. Mae llawer o wledydd yn dathlu Diwrnod Hawliau Dynol ar 10 Rhagfyr bob blwyddyn.**





# ADNODDAU YCHWANEGOL

## Gallwch brynu baner o'r wefan yma - er ein bod yn eich annog i wneud ein baner eich hun.

Gallwch archebu poster [Right up your Street](#) am ddim o Amnest Rhyngwladol I archebu'r poster: Ffoniwch 01788 545 553 a dyfynnu cod ED142

Gallwch archebu [Pasportau My Rights](#) am ddim o Amnest Rhyngwladol. Llyfryn maint poced lliwgar o holl erthyglau'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol i fyfyrwyr 11+ oed. I archebu: ffoniwch 01788 545 553 a dyfynnu cod ED112.

- Gallwch lawrlwytho testun gwreiddiol y [Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol](#) yma.
- Mae'r [fideo TED Ed](#) byr hwn yn gyflwyniad defnyddiol i bwnc hawliau dynol.
- Mae gan Amnest Rhyngwladol UK [adnoddau addysgu cynhwysfawr am ddim ar hawliau dynol](#). Yn ogystal ag adnoddau creadigol manwl ar gyfer pob oedran gallwch; drefnu i siaradwr Amnest Rhyngwladol ddod i'ch ysgol, cael gwybod am sefydlu Grŵp Ieuenctid Amnest Rhyngwladol yn yr ysgol neu ymuno â chynllun gwybodaeth tymhorol Amnest Rhyngwladol - Teach Rights - sy'n cynnwys manylion am brosiectau y gall eich ysgol gymryd rhan ynddynt, cyfleoedd hyfforddi a manylion am adnoddau newydd wrth iddynt ddod ar gael.
- [Rhestr o adnoddau addysgu am yr argyfwng ffoaduriaid](#) Amnest Rhyngwladol, gan gynnwys lincs i amrywiaeth o gemau rhyngweithiol ar gyfer pobl ifanc 7-19 oed.
- Y Groes Goch - [adnoddau addysgu](#) sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm ar gyfer y Cyfnod Sylfaen - Safon Uwch, ynghylch amrywiaeth o bynciau gan gynnwys gwrthdaro a thrais, dyngarwch, ymfudo a ffoaduriaid.
- [Adnoddau addysgu UNICEF](#) ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 - Safon Uwch, ynghlŷn â'r argyfwng ffoaduriaid gyda ffocws ar hawliau dynol/hawliau'r plentyn.
- [Achub y Plant: Complete guide to campaigning for young people.](#)
- [Canllaw ymchwil ar gyfer y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol](#), gan gynnwys linc i gofnodion gair-am-air y cyfarfod lle y cafodd y datganiad ei fabwysiadu.



**DONMAR**<sup>®</sup>

**FLY  
THE  
FLAG**

***Pecyn gwasanaethau Fly The Flag***

Crëwyd gan Donmar Warehouse, gyda chymorth gan Amnest Rhyngwladol UK

Ysgrifennwyd gan Anne Langford

Golygwyd gan Phil McCormack, Rebecca Tarry a Clare Slater

Gyda diolch i Rowena Seabrook yn Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Unedig,  
yr ymgynghorwyr athrawon Katy Brown a Tom Edge

***Fly The Flag***

Prif Artist - Ai Weiwei

Prif Gynhyrchydd - Fuel

Cyd-gynhyrchwyr - Amnest Rhyngwladol y DU, Donmar Warehouse,

Fuel, Human Rights Watch, Liberty, National Theatre, Sadler's Wells, Tate

Cyd-Gomisiynwyr - Coventry UK City of Culture 2021, Farnham Maltings